General Chiropractic Council

Protecting patients
Setting standards

Nodyn gwybodaeth i gleifion
Tachwedd 2010

Perchnogaeth ffilmiau pelydr-X a delweddau meddygol eraill

Mae'n rhaid i geiropractyddion gadw cofnodion iechyd cyflawn

1. Mae'n rhaid i geiriopractydd gadw delweddau pelydr-x a rhai meddygol eraill y mae'n eu cymryd neu'n eu harchebu fel rhan o'ch cofnodion iechyd am gyfnod o **wyth** mlynedd o ddyddiad eich ymweliad diwethaf. Mae hyn yn un o ofynion cyfreithiol y *Cod Ymarfer* a gyhoeddwyd gan y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol - rheolydd statudol ceiropractyddion ledled y DU.

Rhyddhau pelydrau-x i berson iechyd proffesiynol arall

2. Os byddwch chi eisiau i berson iechyd proffesiynol arall edrych ar eich pelydrau-x neu ddelweddau meddygol eraill, efallai y bydd eich ceiropractydd yn fodlon eu rhyddhau i chi, neu, gyda'ch caniatâd, i berson iechyd proffesiynol o'ch dewis chi. **Ond mae'n rhaid i hyn fod ar y dealltwriaeth eglur iawn y bydd yn rhaid dychwelyd y ffilmiau pelydr-X neu'r ddelweddau meddygol eraill at eich ceiropractydd.**

Deddf Gwarchod Data 1998

3. O dan y Ddeddf Gwarchod Data, mae gennych hawl i **gopi** o'ch cofnodion iechyd, gan gynnwys pelydrau-x a delweddau meddygol eraill, a gall eich ceiropractydd godi ffi resymol o hyd at £50 am y copi.

Rhagor o wybodaeth

4. Cofiwch ofyn i'ch ceiropractydd os hoffech holi ynghylch unrhyw beth yn yr hysbysiad hwn.

5. I gael copi rhad ac am ddim o God Ymarfer y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol, ffoniwch y Cyngor ar 0845 601 1796 (prisiau lleol) neu gallwch ei ddarllen ar www.gcc-uk.org .

6. Mae'r Ddeddf Gwarchod Data'n cael ei gweithredu drwy Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gwybodaeth fanwl ar www.ico.gov.uk a llinell gymorth: 0303 123 1113 ar agor o 9am tan 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
44 Wicklow Street
LLUNDAIN WC1X 9HL
Ffôn: 020 7713 5155
enquiries@gcc-uk.org
www.gcc-uk.org